



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Gwybodaeth i gleifion sydd angen



Cydrannau Gwaed Arbelydredig

Gan gynnwys cerdyn
claf a sticeri cofnod
claf pwysig.

Gwybodaeth bwysig i gleifion sydd angen cydrannau gwaed arbelydredig

Mae eich tîm gofal iechyd wedi nodi bod angen cydrannau gwaed arbelydredig arnoch. Dylai'r wybodaeth hon fod wedi'i hychwanegu at eich cofnod claf, ond fel rhagofal ychwanegol, dangoswch y cerdyn sydd ynghlwm i'r tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch chi bob amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad ydych chi'n mynychu'ch ysbyty arferol.

Gofynnwch bob amser a yw'r gydran waed rydych chi'n ei derbyn yn arbelydredig cyn iddi gael ei thrallwysio

Beth yw cydrannau gwaed arbelydredig?

Mae cydrannau gwaed arbelydredig, fel celloedd coch neu blatennau, wedi cael eu trin ag ymbelydredd i atal cyflwr o'r enw Clefyd Graft-versus-Host sy'n Gysylltiedig â Thrallwysiad (TA-GvHD).

Pam mae angen arbelydriad?

Os oes unrhyw gelloedd gwaed gwyn yn y gydran waed, mae arbelydriad yn atal y celloedd gwaed gwyn rhag ymrannu a chynhyrchu mwy. Dim ond rhai cleifion sydd mewn perygl o TA-GvHD, felly nid oes angen i gydrannau gwaed i gyd gael eu harbelydru.

Beth yw TA-GvHD?

Mae TA-GvHD yn gymhlethdod prin ond difrifol o drallwysiad gwaed a achosir gan gelloedd gwaed gwyn yn y gydran waed a drallwyswyd. Mewn cleifion sydd mewn perygl, gall y celloedd hyn adnabod y claf sy'n derbyn y gydran waed fel un 'gwahanol' a gall hyd yn oed nifer fach iawn ohonynt achosi salwch difrifol ac o bosibl marwolaeth.

Pa gleifion sydd mewn mwy o berygl o TA-GvHD?

Mae cleifion sydd mewn perygl o TA-GvHD yn cynnwys:

- Cleifion â Lymffoma Hodgkin.
- Cleifion sydd wedi derbyn triniaeth benodol neu gyffuriau penodol e.e. trawsblaniad môr esgyrn/bôn-gelloedd neu sy'n cael therapi Cell-T Derbynnydd Antigen Chimerig (CAR-T).
- Cleifion â rhai anhwylderau system imiwnedd etifeddol.
- Babanod heb eu geni a babanod newydd-anedig sydd angen trallwysiadau cyfnewid.
- Cleifion sy'n derbyn trallwysiadau gan aelodau'r teulu, rhoddion sy'n cyfateb â math o feinwe neu granwlocytau (math o gelloedd gwaed gwyn).

I rai cleifion dim ond am gyfnod byr y mae'r risg o TA-GvHD yn para.

I eraill, mae'r risgiau'n parhau gyddol oes. Mae hyn yn cynnwys cleifion ag anhwylder system imiwnedd a'r rhai â Lymffoma Hodgkin. Mewn rhai sefyllfaoedd, nid yw'r cyfnod risg yn hysbys, a gellir teilwra'r argymhelliad ar gyfer pob unigolyn.

Bydd eich tîm gofal iechyd yn eich cyngori os oes angen gwaed arbelydredig arnoch chi, eich plentyn, neu berthynas ac am ba hyd.





A yw'r holl gydrannau gwaed yn cael eu harbelydru'n rheolaidd?

Nid yw trallwysïadau celloedd coch yn cael eu harbelydru'n rheolaidd. Mae angen eu harbelydru 'ar alw' ar gyfer cleifion sydd mewn perygl o TA-GvHD. Mae gan gelloedd coch wedi'u harbelydru oes silff fyrrach.

Mae'n bwysig bod eich tîm gofal iechyd yn gwybod am eich angen am gydrannau gwaed wedi'u harbelydru gan y gallai fod angen archebu'r rhain yn arbennig. Gallwch chi helpu drwy eu hatgoffa, neu drwy ddangos eich cerdyn claf iddyn nhw.

Yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, mae trallwysïadau platennau yn cael eu harbelydru'n rheolaidd, ond yn Lloegr dim ond pan fo angen y cânt eu harbelydru.

Nid yw plasma ffres wedi'i rewi, cryoprecipitate, a chynhyrchion plasma, e.e., albwmin a gwrth-D yn cynnwys celloedd gwaed gwyn. Ni allant achosi TA-GvHD, felly nid oes angen eu harbelydru.

Mae cydrannau gwaed sy'n cael eu harbelydru yn nodi hyn yn glir ar label y pecyn gwaed ar flaen yr uned.

A yw arbelydru'n niweidio'r cydrannau gwaed?

Nid oes gan arbelydru effaith sylweddol ar gelloedd coch na phlatennau, ac mae trallwysïadau wedi'u harbelydru yr un mor effeithiol â'r rhai nad ydynt wedi cael eu harbelydru. Nid yw'r rhodd gwaed yn dod yn ymbelydrol ac nid yw'n berygl i chi nac unrhyw un o'ch cwrmpas.

Beth os oes angen cydrannau gwaed mewn argyfwng?

Mewn argyfwng, efallai na fydd digon o amser i drefnu ar gyfer cydrannau gwaed wedi'u harbelydru. Er eu bod yn cael eu hargymell ar eich cyfer chi, efallai ei bod hi'n bwysicach cyflenwi cydrannau gwaed yn gyflym. Bydd y tîm gofal iechyd sy'n eich trin ar y pryd yn asesu cydbwysedd y risgiau hyn: os hoffech wybod mwy am yr hyn y byddai hyn yn ei olygu, trafodwch â'r ymgynghorydd sy'n gyfrifol am eich gofal.

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae Gwasanaethau Trallwyso Gwaed y DU yn ymarfer Dyletswydd Gonestrwydd. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw pan fo digwyddiad annisgwyl neu anfwriadol wedi digwydd, yr ymddengys ei fod wedi achosi niwed neu farwolaeth mewn perthynas uniongyrchol â thrallwysiad. Yn Lloegr, Cymru a'r Alban mae hyn wedi'i gynnwys yn benodol yn y gyfraith gan ddeddfwriaeth Dyletswydd Gonestrwydd. Gofynnwch i'ch tîm gofal iechyd am ragor o wybodaeth neu ewch i'r wefan ganlynol: www.llyw.cymru/dyletswydd-gonestrwydd-y-gig

Cyn i unrhyw ddarparwr gofal iechyd eich archwilio neu eich trin, rhaid iddynt ofyn am eich cydsyniad neu ganiatâd. Er mwyn gwneud penderfyniad, mae angen i chi gael gwybodaeth gan ddarparwyr gofal iechyd am eich gofal, gan gynnwys y dewisiadau eraill sydd ar gael i chi ac a oes risgiau yn ogystal â manteision iddo. Gofynnwch fwy o gwestiynau i'ch darparwr gofal iechyd am eglurhad neu wybodaeth bellach.



Cysylltu â ni

Paratowyd y daflen hon gan Rwydwaith Trallwys Gwaed y DU ac Iwerddon ar ran y 4 Gwasanaeth Gwaed yn y DU.

Cymru

Am unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r daflen hon, anfonwch e-bost at:
WBS.Bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Sganiwch y cod QR yma i weld taflenni gwybodaeth eraill i gleifion:



Am wybodaeth ar sut i gael mynediad at Ap Fy Nhrallosiad Peryglon Difrifol Trallwysiad (SHOT), ewch i
<https://www.shotuk.org/news/download-the-my-transfusion-app/>

Rhif Cyfeirnod
Dyddiad Cyhoeddi
Dyddiad Adolygu
Yn effeithiol

BH-017; Rhifyn 5
01/11/2025
01/11/2028
11/2025

Name _____
DoB ____/____/____ Consultant _____
CHI/Hospital number _____
Hospital for enquiries _____
Reason for irradiated blood _____
Irradiated blood needed indefinitely or until
____/____/____
Date of issue of card ____/____/____



Northern Ireland
Blood Transfusion Service



Bend sheet back across here to peel off card

**I am at risk of transfusion-associated
graft-versus-host disease**

**If I need a blood component transfusion,
red cells and platelets**

SHOULD BE IRRADIATED

**Please inform your blood
transfusion laboratory**



NHS
Blood and Transplant

Northern Ireland
Blood Transfusion Service



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service



Please detach the card above, complete the
details on the reverse and hand to the patient.
Patients are encouraged to show this card to
their healthcare team before transfusion.

**I am at risk of transfusion-associated
graft-versus-host disease**

**If I need a blood component transfusion,
red cells and platelets**

SHOULD BE IRRADIATED

**Please inform your blood
transfusion laboratory**



NHS
Blood and Transplant

Northern Ireland
Blood Transfusion Service



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service



**This patient is at risk of transfusion-
associated graft-versus-host disease**

**If I need a blood component transfusion,
red cells and platelets**

SHOULD BE IRRADIATED

**Please inform your blood
transfusion laboratory**



NHS
Blood and Transplant

Northern Ireland
Blood Transfusion Service



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service



Please attach the stickers below to the patient's notes and/or raise
a flag/alert in patient's electronic patient record.